Penrhyn-coch

Braf oedd gweld y merched yn eu gwisgoedd Cymreig ar Ddydd Gŵyl Ddewi a'r bechgyn hwythau wedi gofalu bod daffodil neu genhinen gan bob un ohonynt. Dechreuwyd y dathlu gyda Gwasanaeth crefyddol ac yna awd ymlaen gyda'r cystadlu. Bu'r plant wrthi'n brysur drwy'r dydd a da oedd gweld safon uchel ym mhob cystadleuaeth. Am hanner awr wedi dau rhaid oedd dod â'r gweithgar-eddau i ben gan fod y consuriwr Rosfa wedi cyrraedd o Rydaman. Treuliwyd gweddill y prynhawn yn ei gwmni ef a chafwyd orig hapus a diddorol yn ei wylio'n gwneud y campau mwyaf anhygoel. 'Roedd y plant, ac yn wir y staff, wedi synnu a rhyfeddu wrth weld rhai pethau'n diflannu o flaen eu llygaid a rhai pethau eraill yn dyfod o rywle na wyddai neb o ble ond Rosfa ei hun. Orig ardderchog yn wir.

Yn dilyn hyn cafwyd te ardderchog a baratowyd gan y mamau o dan ofal Mrs. Glenys Howells. Diolchwyd iddynt am eu caredigrwydd gan y prifathro.